PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 17 | Ebrill 23, 2026 | 50c.

# Teyrnged i Dewi

*Dyma grynodeb o'r rhan gyntaf o'r deyrnged a draddodwyd i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes gan Fiona Gannon yn ei angladd ar 17 Mawrth yng Nghapel y Nant, Clydach.*



Roedd yn anodd dewis un gair i ddisgrifio'r Parchg Dewi Myrddin Hughes, oherwydd roedd cymaint ohonynt yn gweddu: caredig, doeth, diymhongar, tyner, dibynadwy. Ond y disgrifiad sydd wedi cael ei ddefnyddio fwyaf o bosib gan bobl wrth glywed bod Dewi wedi'n gadael yw 'dyn da'. Yn y Beibl, defnyddir yr ansoddair hwn i ddisgrifio pobl sy'n rhoi Duw yn gyntaf ac sy'n byw'n ffyddlon hyd yn oed pan fo hynny'n eu gwneud yn eithriadau yn eu cyfnod. Ffordd gynnil o ddweud 'rhywun arbennig iawn', felly, yw'r ansoddair 'da' yn y Beibl, a dyna oedd Dewi, yn ddiamau. Roeddei ddaioni'n amlwg ym mhob agwedd ar ei fywyd, ac roedd pawb a ddaeth i'w adnabod wedi profi ei garedigrwydd tawel a'i ofal, ac yn sicr wedi cael bendith o fod yn ei gwmni, a thystio i'w ffydd dawel, gadarn a'i ymddiriedaeth lwyr yn Nuw.

Ganed Dewi ar 9 Ebrill 1941, yn fab i Dafydd a Bet Hughes, a'i fagu yn Nyffryn Clwyd, mewn cymuned wledig Gymraeg a diwylliedig yn nhiriogaeth Tudur Aled, William Salesbury a Gwilym Hiraethog. Fel mab ffarm Llys Aled, dysgodd weithio'n galed ac fe gafodd fagwraeth hapus a chynnes. Er iddo dreulio degawdau lawer yn y de, ni pheidiodd Dewi byth ag ymfalchïo yn ei wreiddiau, ac fe barodd acen y gogledd yn gryf, yn enwedig pan fyddai'n sgwrsio â rhywun o'i filltir sgwâr, er mawr ddifyrrwch i'r teulu i gyd, fyddai wrth eu bodd yn ei bryfocio am y peth!

Roedd bryd Dewi ar fynd yn weinidog yn gynnar – byddai'n mynd i Gapel Coffa Gwilym Hiraethog, y capel agosaf at y fferm, o Sul i Sul, a bu'n cymryd rhan yn y cyrddau gweddi yno mor ifanc ag 13 oed. Rwy hefyd wedi cael ar ddeall iddo gael ei ddal ambell waith yn pregethu i'r ieir ar y fferm! Serch hynny, i astudio'r Gymraeg yr aeth i Fangor yn gyntaf, gan elwa ar ddarlithwyr fel Caerwyn Williams a Bedwyr Lewis Jones, cyn aros i astudio diwinyddiaeth ym Mala Bangor dan Gwilym Bowyer ac R. Tudur Jones. Roedd Dewi'n teimlo mai'r weinidogaeth oedd ei ffordd naturiol o wasanaethu Duw, ac mae'r sawl a brofodd ei ofal yn gallu cadarnhau hynny.

Yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol cyfarfu â Blodwen Morgan o Bont-iets. Ar ôl iddi symud i Gaerdydd, buont yn canlyn o bell, gan lythyru'n frwd. Roedd Dewi wedi cael ei swyno gan gynhesrwydd pobl y Rhondda ar daith gasglu, ac felly ym 1965 derbyniodd alwad i fod yn weinidog yn Nhrefach Rhondda, Tylorstown ac Ynyshir. Yno y magwyd eu dau fab, Aled ac Ifan. Arhosodd y teulu yno am chwe blynedd cyn symud i Gwmllynfell ac yna i Gellimanwydd, Rhydaman.

Roedd y tair cymuned hyn –diwydiannol, lofaol, clos – yn ffynnu ar wasanaeth gofalgar 'Mr 'ughes'. Roedd Dewi'n weinidog a oedd yn adnabod ei bobl, yn eu caru, ac yn eu cefnogi. Ond yn y cyfnod hwn daeth profedigaethau dwys. Collodd ei frawd Eifion mewn damwain pan oedd ond yn 26 oed. Yna daeth diagnosis Blodwen o ganser, a bu Dewi a'r bechgyn yn gorfod wynebu ei cholli'n boenus o ifanc. Roedd y profiadau hyn yn siapio ei weinidogaeth: roedd ei gydymdeimlad yn ddidwyll, ei eiriau'n gynnil ond yn werthfawr, a'i bresenoldeb yn gysur. Roedd yn ddigon gonest i gyfaddef ei fod ar chwâl ar ôl colli Blodwen, ond yn ddigon cryf i sicrhau mai'r bobl yr oedd yn ymweld â nhw oedd ganolbwynt ei sylw.

Ychydig cyn marwolaeth Blodwen, bu farw ffrind agos Dewi, y Parchg Gareth Thomas, gŵr cyntaf Annette. Roedd y ddau deulu'n gyfeillion mawr, gyda'r plant yn rhannu diddordebau – gan gynnwys mynd i wylio'r Elyrch, er bod un ymweliad wedi troi'n antur pan aeth Dafydd ar goll wrth geisio cael golwg well ar y cae. Roedd gan y ddau deulu yma gymaint yn gyffredin o ran egwyddorion, cefndir, a diddordebau, ond yn sgîl profi trasiedi bersonol, daeth y cysylltiad rhyngddynt yn agosach fyth, a cham digon naturiol yn y pen draw oedd bod y cyfeillgarwch rhwng Dewi ac Annette yn datblygu'n rhywbeth dyfnach, fel eu bod yn priodi ac yn ffurfio cnewyllyn cadarn o gariad a gofal i gynnal y plant i gyd wrth symud ymlaen i'r dyfodol.

Trwy'r cyfan, parhaodd Dewi'n ddyn o ffydd ddistaw, o ddoethineb, ac o wasanaeth. Roedd ei fywyd yn dystiolaeth i'r hyn y gall 'dyn da' ei gyflawni: rhywun sy'n cerdded yn ostyngedig gyda Duw, sy'n caru pobl yn ddwfn, ac sy'n gadael ôl parhaol ar bawb sy'n dod i'w adnabod.

*Bydd yr ail ran o'r deyrnged yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

**Fiona Gannon**

# Caersalem, Pontyberem



Ar fore dydd Gwener y Groglith wrth gofio am ddioddefaint yr Arglwydd Iesu a'i farwolaeth trosom ar y groes cynhaliwyd oedfa gymun o dan ofal ein gweinidog y Parchg Emlyn Dole. Yna, ar fore Sul yr atgyfodiad, bore Sul y Pasg cynhaliwyd oedfa arbennig i ddathlu fod yr Arglwydd Iesu wedi concro marwolaeth a'i fod eto'n fyw. Wrth fwrdd y cymun derbyniwyd Rosemary a Meurig Rees yn aelodau o deulu'r eglwys. Magwyd y ddau fel plant yng Nghaersalem a braint oedd cael eu croesawi'n ôl i'n plith. Boed bendith ar y ddau.

# Be’ wnawn ni?

A minnau wedi dathlu fy mhen-blwydd yn 87 oed (wedi gwirio fy nhystysgrif geni) rwy’n cael fy hun yn sylwi ar gyfeiriadau yn cynnwys ‘can mlynedd yn ôl’ ac yn ymateb, ‘helo mae hynny ond cwta ddwsin o flynyddoedd cyn fy ngeni i.’ Wrth gwrs mae’r cyfnod yn gorwedd yn hawdd o fewn oes fy rhieni; ganed fy nhad yn 1902 a mam yn 1907. Yn 1926 buasent yn oedolion ifainc, yn ffyddlon i oedfaon capel Annibynwyr Saron, Gendros, Abertawe. A meddyliais, petasent yn medru galw mewn sawl oedfa ar draws Cymru heddiw, buasent yn gwbwl gyfforddus gyda’r drefn, heblaw am nodi enw gwahanol ar y llyfr emynau, *Caneuon Ffydd* yn hytrach na *Y Caniedydd*.

## Delwi

A meddyliais; sut y glaniwyd ar fformat mor berffaith fel na fu galw nac awydd galw am newid neu addasiad dros fwy na chan mlynedd? Rwy’n amau a oes un ateb penodol. Yn hytrach rhyw broses o asio hen arferion grwpiau bychain o ddarllen y Beibl (yn y Gymraeg), o weddïo ac, ymhen amser, o ganu cynulleidfaol. I’r drefn hon roedd, rwy’n tybio, elfen gref o ddiddanwch a difyrrwch cymdeithasol; doedd yr un lle arall i fwynhau cymdeithas ‘dorfol’ a difa undonedd cartrefol. Gwendid mawr y drefn oedd amlygrwydd yr un llais gyda’r canlyniad na fu disgwyl, na fu ysgogiad, na fu cyfle i eraill rannu profiad.

Erbyn heddiw mae ystadegau yn dangos yn glir am y gostyngiad sylweddol yn nifer y boblogaeth sy’n dal i fynd i’r cwrdd yn gyson. Rhag ofn i ni orddigalonni, dylid nodi bod y cyfryw ystadegau yn adlewyrchu arferion ar draws gwledydd Prydain ac Ewrop. Cofiaf un gweinidog yn datgan ei farn bod y cefnu wedi dechrau yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae’n siŵr bod sawl cynnig ar esboniad.

## Be’ wnawn ni?

Ydy’r cyfarfod yn ‘achlysur’, yn amrywiol ei gynnwys, ei apêl, ei her? Nid felly’r amrywiaeth traddodiadol o emyn, darllen, gweddi. Mentrwn ar batrwm sy’



ddim yn debyg o gwbwl i’r hyn a fuasai’n gyfarwydd i’m rhieni yn 1926. A oes rhaid cael emynau (i’w canu) ym mhob cwrdd? Onid yw’n bryd i ni drefnu DARLLEN emynau, gan dderbyn budd o feddyliau eraill? Ai dim ond darlleniadau o’r Beibl sy’n dderbyniol? Onid oes doethineb mewn ysgrifau ers dyddiau Iesu? Clywais sawl pregethwr yn dyfynnu o ysgrifau anfeiblaidd, ond brawddeg neu ddwy yn unig.

1. Beth am gael oedfa yn cynnwys dim ond emynau, gyda sylwadau?
2. A oes rhaid cael ‘pregeth’ bod tro, gan yr un llais? Gyda’r lleihad yn nifer yr ordeiniedig mae’r drefn hon yn diflannu.
3. Pa gymorth sy’n cael ei roi ymlaen llaw i’r gynulleidfa am thema'r oedfa nesaf?
4. Dylem ymgyrraedd at sefyllfa lle mae cynulleidfa yn rhoi gwybod ymlaen llaw i arweinydd y cyfarfod nesaf parthed y maes yr hoffent gael arweiniad.

Digon yw digon am y tro. Mae sawl gwedd ar addasu. Cynnal neges Iesu yw ein braint a dyletswydd, nid cynnal ffurf ar ddiwylliant Cymraeg sy’ wedi gwasanaethu. Diolch amdano.

**Neville Evans**

# WRTH Y LLYW #14

21/3; Capel Albany, Hwlffordd – Synod Gwanwyn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru (URC). Un o weinidogion yr URC yn lleol, y Parchg Ruth Whitehead fu’n arwain y defosiwn agoriadol a’r cyfan yn seiliedig ar Ioan 12:20–28. Y mae’r Groegiaid yn cynrychioli’r cenhedloedd a oedd, erbyn amser ysgrifennu Efengyl Ioan, yn barotach o lawer na’r Iddewon i gredu yng Nghrist. Bu’r myfyrdod a’r myfyrio yn troi o gwmpas y triawd o gwestiynau: Pa mor barod ydym i gredu? Pa mor barod ydym i annog eraill i gredu? A pha bethau bychain y gellid gwneud i helpu eraill yn eu cred?

## Trwy’r to

Bu treulio’r diwrnod gyda’r URC yn gyfrwng i weld beth sydd rhyngom yn gyffredin a chodi ambell arfer dda y buasai’n fuddiol i ni ei hefelychu.



Dechreuaf gyda thameidiau o arfer dda: nodweddir y cyfarfodydd hyn (Synod yr Hydref a’r Gwanwyn) gyda chyfleoedd i werthfawrogi gweinidogaeth eglwysi lleol, a dathlu gweinidogion; eu cyfraniad yn fynych yn dawel a chyson, o dan amodau anodd. Mae’r URC, yn union fel ninnau yn gwthio tuag at greu eglwysi lleol sydd yn oleufâu gwyrdd **arocha.org.uk** ac **egin.org.uk**; a hwythau efallai yn cael fwy o lwyddiant na ninnau. Bu sôn am sut mae eglwysi’n gweithio a chyd-weithio i greu gofod hygyrch a diogel i bawb gael cyd-addoli. Yn y cyd-destun hwn, difyr iawn oedd clywed am waith y mudiad **throughtheroof.org** Daw’r enw o’r hanes hwnnw yn Efengyl Marc 2:1–12 (a hefyd Luc 5:17–19). Torrir ar draws pregeth Iesu gan y pedwar cyfaill yn cario un claf o’r parlys ar fatras. Mae eu hymdrech yn dangos mesur eu ffydd. Gweledigaeth ‘Through the Roof’ yw bod pawb – abl ac anabl – yn mwynhau bywyd gyda’i gilydd, yn rhoi ac yn derbyn i’w gilydd, fel y bwriadodd Duw. Bu cyflwyniad gan y

*parhad ar dudalen 6*

Yr Adran
Gydenwadol

23 Ebrill 2026
Rhifyn 269

I ddarllen y cyhoeddiad digidol
*Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Ann Griffiths: un o ryfeddodau mawr Cymru

## E. Wyn James, Caerdydd

Ann Griffiths, yn ddi-os, yw un o ryfeddodau mawr y diwylliant Cymraeg. Mae beirniaid llenyddol gwybodus a chyfrifol yn ei gosod ymhlith pymtheg bardd mwyaf y Gymraeg dros holl 1,500 o flynyddoedd ein barddoniaeth, o ddyddiau Aneirin a Thaliesin i lawr at heddiw. Tyfodd yn eicon cenedlaethol. Bu'n destun dramâu, nofelau a cherddi, ynghyd ag astudiaethau di-rif. Fe'i cyfrifir yn brif emynydd Cymru, ochr yn ochr â Williams Pantycelyn. At hynny, mae awdurdodau rhyngwladol ar ysbrydoledd ac ar lenyddiaeth grefyddol yn ei hystyried yn fardd o bwys byd-eang, a rhai ohonynt wedi dysgu'r Gymraeg er mwyn astudio ei gwaith.

Mae hynny oll yn gwrthgyferbynnu'n drawiadol â safle cymdeithasol di-nod Ann yn ystod ei bywyd. Fe'i ganed 250 o flynyddoedd yn ôl, yn 1776, ym mhlwyf gwledig Llanfihangel-yng-Ngwynfa yng ngogledd sir Drefaldwyn. Hi oedd y pedwerydd o bum plentyn John a Jane Thomas o fferm Dolwar Fach, sydd tua saith milltir i'r de-orllewin o dref farchnad Llanfyllin. Bedyddiwyd Ann yn Eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa ar 21 Ebrill 1776 – a thybed a oedd ei rhieni braidd yn siomedig mai merch ydoedd, am fod ganddynt ddwy ferch yn barod, a dim ond un mab?

Yn Nolwar Fach y byddai Ann yn byw ar hyd ei bywyd byr. Daeth yn feistres Dolwar yn dilyn marwolaeth ei mam yn Ionawr 1794, am fod ei chwiorydd hŷn wedi gadael cartref erbyn hynny. Bu farw ei thad ymhen deng mlynedd wedyn, yn Chwefror 1804. Yna, yn Hydref 1804, priododd Ann â Thomas Griffiths, un o'i chyfoedion o blwyf cyfagos Meifod. A dyna pam y galwn ni hi'n 'Ann Griffiths', er mai 'Nansi Thomas' ydoedd i'w chydnabod yn gyffredinol yn ystod ei hoes.

Daeth Thomas Griffiths i fyw at Ann a'i brawd di-briod, John, yn Nolwar Fach. Ond yna, yn Awst 1805, bu farw Ann yn 29 oed, yn sgil geni merch fach, Elizabeth, a aned ar 13 Gorffennaf. Claddwyd Elizabeth ar 31 Gorffennaf, a chladdwyd Ann hithau ar 12 Awst ym mynwent Eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa, yr eglwys lle y'i bedyddiwyd yn blentyn a lle y priododd.

Er bod Ann a'i theulu yn aelodau eithaf amlwg yn eu cymuned, fel yr awgrymais, rhai digon di-nod oeddynt y tu allan i'r cylchoedd hynny. Nid oedd Ann yn ddigon pwysig i lun ohoni gael ei dynnu, ond gallwn gasglu ei bod yn ferch dalach na'r cyffredin, a bod ganddi wallt tywyll, talcen lled uchel, a thrwyn ychydig yn fwaog. Dywedir ei bod yn eithaf gwelw ei phryd a'i gwedd, ond bod ganddi fochau gwridog a llygaid disglair. Bu'n eithaf gwan ei hiechyd ar hyd ei bywyd; ond os oedd yn fregus o gorff, roedd yn gryf o feddwl a chymeriad. Roedd yn un fywiog, unplyg ac angerddol, yn siriol, direidus a braidd yn fyrbwyll. Roedd hefyd yn arweinydd ymhlith



*Penddelw i Ann Griffiths yn ei Chapel Coffa yn Nolanog*

ei chyfoedion, a chanddi feddwl treiddgar a chof eithriadol.

Dechreuodd Methodistiaeth ledu'n arwyddocaol ar draws gogledd Cymru wedi i Thomas Charles ymsefydlu yn y Bala yn yr 1780au a dod yn brif arweinydd y Methodistiaid yn y gogledd. Erbyn canol yr 1790au roedd dylanwad y mudiad Methodistaidd wedi dechrau effeithio o ddifrif ar ardal Ann Griffiths. Cafwyd adfywiad ysbrydol yno yr adeg honno, a'r canlyniad oedd i'r rhan fwyaf o deulu agos Ann ddod yn eu tro yn Fethodistiaid. Daeth nifer ohonynt, gan gynnwys Ann, yn aelodau o seiat y Methodistiaid a fyddai'n cyfarfod ym Mhontrobert wedi i gapel gael ei godi yno yn 1800 i fod yn gartref i'r seiat. Dyna 'Hen Gapel John Hughes' fel y'i gelwir heddiw.

Dechreuodd taith Ann tuag at ymuno

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

â seiat y Methodistiaid pan glywodd bregeth yn Llanfyllin adeg y Pasg 1796. Yn dilyn y bregeth honno, bu hi am rai misoedd yn ymboeni'n fawr am ei chyflwr ysbrydol ac yn anesmwyth iawn ei chydwybod. Y diwedd fu iddi fentro i gyfarfodydd y Methodistiaid. Effaith hynny ar y dechrau oedd dyfnhau ei hymwybyddiaeth o'i phellter oddi wrth Dduw, ei bod yn methu cyrraedd ei safonau perffaith, a'i bod o'r herwydd o dan ei gondemniad. Ond yna, daeth i weld fod Iesu Grist – yr Un gogoneddus a oedd yn Dduw ac yn ddyn yn yr un Person – wedi cymryd cosb ei phechod hi arno Ef ei Hun trwy farw ar y groes, gan agor 'ffordd gyfreithlon' iddi allu dod, trwy ffydd, i 'hedd a ffafor gyda Duw'.

Gosodai'r Methodistiaid bwyslais mawr nid yn unig ar gredu ffeithiau'r ffydd Gristnogol uniongred, ond hefyd ar ddod i brofiad ohonynt. Rhaid oedd teimlo gwirioneddau'r ffydd yn y galon yn ogystal â'u credu yn y pen, a dod trwy ffydd i berthynas bersonol â Duw. Ac fe gafodd Ann brofiadau ysbrydol a oedd yn rhai arbennig o ddwys, hyd yn oed mewn cyfnod o ddiwygiad. Un 'hynod' ei phrofiadau ydoedd, meddai ei chyfaill a'i chofiannydd, John Hughes, Pontrobert, ac fe gytunai Thomas Charles, ei phrif fentor.

Roedd Ann wedi bwriadu cadw dyddiadur i gofnodi ei phrofiadau, ond yn lle hynny dechreuodd lunio penillion mewn cyfnodau o fyfyrdod dwfn, a'r rheini'n crisialu ei phrofiadau a'i chanfyddiadau crefyddol. Gallwn ystyried y penillion hynny, felly, fel petaent yn gofnodion mewn dyddiadur ysbrydol. Er y byddai'n rhannu rhai ohonynt â chyfeillion, fe'u lluniwyd gan Ann at ei defnydd defosiynol hi ei hun, heb fwriad ganddi iddynt gael eu defnyddio'n gynulleidfaol.

Ychydig dros 70 o benillion o'i gwaith sydd wedi goroesi – o gymharu â thua mil o emynau o waith Williams Pantycelyn! Ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu diogelu i ni oherwydd i Ruth Evans, morwyn Dolwar Fach a *confidante* ysbrydol i Ann, eu cofio a'u hadrodd i'w gŵr, John Hughes, Pontrobert, iddo eu hysgrifennu i lawr. Ac fe roddodd ef gopïau i Thomas Charles, iddo drefnu iddynt gael eu hargraffu.

Dechreuais yr ysgrif hon trwy alw Ann yn 'un o ryfeddodau mawr y diwylliant Cymraeg'. Ac yn briodol ddigon, synnu a rhyfeddu yw un o brif nodweddion ei gwaith. Iesu Grist yw gwrthrych mawr ei chân. Nid amhriodol yn wir fyddai disgrifio ei phenillion yn ganeuon serch iddo Ef. Ef hefyd yw ffynhonnell y paradocsau sydd mor amlwg yn ei gwaith ac sy'n rhan mor greiddiol o'i meddwl a'i mynegiant. A thrwy'r cyfan, cawn Ann yn boddi mewn syndod wrth fyfyrio ar ryfeddod y Person dwyfol a oedd ar yr un pryd yn ddyn.

Fe'i cawn hefyd yn rhyfeddu 'â mawr ryfeddod' at waith achubol y Person rhyfeddol hwnnw. Dyna a agorodd y ffordd iddi hi, bechadur, ddod trwy ffydd i berthynas gariadus â'r Duw mawr, pur a sanctaidd. Ac nid hynny'n unig, ond gwelwn Ann yn hiraethu am gael treulio tragwyddoldeb yn ei gwmni, gan nofio yno mewn 'môr o ryfeddodau' a



threiddio ymhellach ac ymhellach 'i ddiderfyn ryfeddodau iechydwriaeth Calfari'.

Crynhoir y cyfan, mewn gwirionedd, yn yr adnod a ddewisodd John Hughes, Pontrobert, ar gyfer ei bregeth angladdol iddi, a draddododd yng nghapel y Methodistiaid ym Mhontrobert ar y Sul wedi i Ann gael ei chladdu: 'Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw' (Philipiaid 1:21). Neu fel y dywedodd Ann yn yr unig lythyr sydd gennym yn ei llaw hi ei hun,

> 'Hyn sydd yn fy llonni fwyaf o bob peth y dyddiau hyn – nid marw ynddo ei hun, ond yr elw mawr sydd i'w gael trwyddo: cael gadael ar ôl bob tueddiad croes i ewyllys Duw, gadael ar ôl bob gallu i ddianrhydeddu deddf Duw, bob gwendid yn cael ei lyncu i fyny gan nerth, cael cydymffurfiad cyflawn â'r gyfraith, yr hon sydd eisoes ar ein calon, a mwynhau delw Duw am byth.'


**Mae cyflwyniad manylach i fywyd a gwaith Ann, ynghyd â thestun ei hemynau a'i llythyrau, ar Wefan Ann Griffiths:**

**https://www.anngriffiths.caerdydd.ac.uk/index.html**

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru**
**ar 01745 817584**
**neu 07957 510346**
yn ystod oriau swyddfa
neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111**
am gyngor tu allan i oriau swyddfa.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 19

## Protest Mahla, Noa, Hogla, Milca, Tirtsa

Safwn yma, nid fel cysgodion crynedig, ond fel merched ein tad, Seloffehad. Rydym yn gymeriadau gwahanol i'n gilydd, yn unigolion, ond heddiw down yn unfryd o'ch blaen, gan gydio yn nwylo ein gilydd yn ddewr.

Aeth ein tad i'r llwch, fel yr awn ni i gyd yn ein tro. Ond oherwydd na chafodd fachgen i'w alw'n fab, bydd enw ein tad a'n teulu'n diflannu. Rhannwn, fel chwiorydd, yr un gwaed a'r un cyfenw. Peth prydferth yw enw; all neb ei ddwyn oddi arnom, na'i ddifwyno, ac ni all neb ei newid.

Dywedwch, felly, onid yw'r gyfraith yr ydym mor barchus ohoni yn gyfraith i bawb? Ydych chi'n disgwyl inni gydymffurfio â'r drefn haearnaidd hon fel pe na bai ein teulu ni ddim yn cyfri? Pam mai dim ond drwy fechgyn y caiff llinach ei pharchu? Pam na chawn ni, ferched, ein cydnabod fel aelodau cyflawn o'n teulu ein hunain?

Gwrthodwn fod yn dawel. Ymwrthodwn â'r arfer o fod yn daeog fel merched. Nid gwan ydym, ond cryf. Nid israddol ydym, ond hafal. Ni roddwn ichi'r caniatâd i ddiddymu ein henw. Nid dod yma'n wrthryfelgar wnawn ni heddiw, ond i roi ein rhesymeg gerbron yn deg. Ddown ni ddim o'ch blaen yn amddiffynnol, ond gyda chwestiwn sydd angen ei ateb.

Gofynnwn am yr hawl i etifeddu ystad ein tad, a hynny fel plant cyflawn iddo. Nid hunanoldeb barus ydyw, nid balchder oriog, ond cyfiawnder. Dydyn ni ddim yn gofyn am unrhyw beth sy'n fwy na'n haeddiant. Dyma ddylai ddigwydd mewn byd teg. Os nad yw'r gyfraith eto wedi cydnabod merched, yna boed i hynny ddechrau heddiw. Os yw traddodiad wedi ein hepgor, yna ymbiliwn yma nawr am newid.

Credwn y dylai'r gyfraith esblygu pan fo angen hynny. Credwn y dylai'r bobl sy'n arwain ar faterion cyfreithiol fod yn ddigon aeddfed i weld pan fo angen newid. Os oes angen inni godi ein lleisiau a gofyn i'r gyfraith ei hun ein clywed, yna fe wnawn hynny!

Gofynnwn am gael ein gweld. Oherwydd rydym yma, o'ch blaen, yn bobl fyw o gig a gwaed. Credwn nad yw Duw yn gwahaniaethu rhyngom fel gwryw a benyw. Credwn mai hafal ydym oll a bod Duw yn ein cydnabod ni, ferched, yn union fel y cewch chwithau, ddynion, eich cydnabod. Ef yw ein Duw ni a'ch Duw chi. Un ydym yn ein hymlyniad at y pethau gorau a phopeth da.

Safwn yma felly o'ch blaen – yn ofnus ond yn gadarn. Os yw Duw yn gwrando, gadewch iddo glywed hyn: nid yw cyfiawnder yn dibynnu ar rywedd person. Nid yw moesoldeb yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng person a pherson. Nid oes raid ymlynu at ddiffinio pawb. Gofynnwn am degwch sy'n fwy na thraddodiad. Rydym angen teimlo ein bod yn perthyn ac rydym angen yr hawl i dderbyn ein hetifeddiaeth. Os bydd y foment hon yn newid y gyfraith am byth, yna hoffem i hyn gael ei gofio: gwirionedd sy'n newid pethau, dewrder sy'n symud y rhwystrau; gyda'n gilydd rydym yn gryfach. Weithiau mae wirioneddol angen codi llais!

Merched ein tad, Seloffehad, ydym ni, a heddiw gofynnwn am wrandawiad teg ac am yr hawl ei gael ein cydnabod â pharch.

**Holi**

- Mae'r chwiorydd yn herio'r gyfraith yn ddewr. A oes rhai tebyg sy'n herio'r drefn heddiw?
- Pa broblemau – economaidd, cymdeithasol, cyfreithiol – yn ein hoes ni sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhywedd? Beth sydd gan ein heglwysi i'w ddweud ar y pwnc?
- Mae'r merched yn y stori yn ymbilio am gael perthyn. Sut mae trafodaethau cyfredol am berthyn a chynhwysiant yn adleisio protest merched Seloffehad?
- Mae eu protest yn newid pethau. Beth yw eich barn chi ar esblygu, a sut mae modd cael cydbwysedd rhwng parchu traddodiadau da a diwygio cyfundrefnau pan fo angen hynny? Sylwch, o ran diddordeb, i ba gyfeiriad y mae eich sgwrsio'n mynd â'r drafodaeth.
- 'Gyda'n gilydd rydym yn gryfach'... pa mor bwysig yw bod yn gydweithredol fel Cristnogion heddiw? Oes enghreifftiau o gydweithredu sydd wedi / yn gwneud gwahaniaeth o fewn eich eglwys neu eich cymuned ffydd?

**Gweddi**

Dduw trugarog, atgoffa ni pa mor bwysig yw codi llais yn erbyn anghyfiawnder. Symud ni o'n diymadferthedd. Gwna ni'n bobl sy'n sefyll dros yr hyn sy'n iawn, hyd yn oed pan fo hynny'n anghyfleus neu'n anodd inni. Agor ein calon i ymateb i'r hyn sy'n mynd ymlaen o'n cwmpas heddiw a gwneud hynny gyda gonestrwydd didwyll. Helpa ni i esblygu'n ddoeth ac adeiladu cymunedau lle mae pawb yn perthyn. Boed inni weithio'n gydweithredol fel plant i Ti er hyrwyddo daioni a chariad. Amen.

*Sian Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu**

**Radio Cymru**
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 26 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Delyth Wyn Davies, Chwilog

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 26 Ebrill am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Fflur Bowen a myfyrwyr Aberystwyth

**S4C**
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 26 Ebrill, am 18.45yh**
Gwasanaeth y Cablyd
Nia Roberts fydd yng Nghadeirlan Llanelwy ar gyfer Gwasanaeth y Cablyd Brenhinol.

# GOHEBIAETH

## Enwau Cymraeg

Annwyl Gyfeillion,

Rydym yn anfon atoch ynglŷn â pholisi'r Arolwg Ordnans, yr asiantaeth fapio, ar ei defnydd o enwau lleoedd yn yr amglychedd naturiol (enwau tirweddol).

Ar hyn o bryd mae'r asiantaeth, sydd â'i swyddfa yn Southampton, yn mynnu gosod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol, e.e. 'The Mushroom Garden' (Coed Cerrig y Frân) a 'Heather Terrace Path' (Llwybr Gwregys); a gosod enwau Saesneg ochr yn ochr â rhai enwau Cymraeg, e.e. 'Cwm Cneifion/Nameless Cwm' a 'Snowdon/Yr Wyddfa' (er gwaethaf y ffaith nad ydi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ddim yn defnyddio'r enw Snowdon bellach). Mae'r polisi presennol yn cyfrannu i'r broses o ddisodli enwau Cymraeg gan enwau Saesneg.

Gofynnwn yn garedig i chi fel cymdeithas/grŵp/cangen mudiad gefnogi ein cais i'r Arolwg Ordnans newid ei bolisi. Gallech, os dymunwch, ddefnyddio'r neges barod isod i'w e-bostio at jonathan.holmes@os.uk. (Mae'r asiantaeth yn derbyn gohebiaeth Gymraeg.)

Yn gywir,
Emyr Roberts (Cydlynydd)
Rhys Parry
Ieuan Wyn

*Ymgyrch Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg*

*Annwyl Jonathan Holmes,*

*Dymunwn gefnogi'r cais i'r Arolwg Ordnans newid ei bolisi presennol ar y defnydd o enwau lleoedd tirweddol/daearyddol.*

*Rydym o'r farn na ddylai mapiau'r asiantaeth yng Nghymru osod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol, na gosod enwau Saesneg ochr yn ochr ag enwau Cymraeg.*

*Mae'r polisi presennol yn cyfrannu i'r broses o ddisodli enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol gan enwau Saesneg.*

*Edrychwn ymlaen at glywed gennych.*

*Yn gywir,*

## WRTH Y LLYW #14 – parhad

**www.trussell.org.uk/our-work/wales** a'r Synod yn ymrwymo i gefnogi'r ymgyrch: 'Guarantee our Essentials.'

### Tensiwn creadigol

Un o anhepgorion y darn hwn o'r dydd oedd apelio ar eglwysi i weithredu, ymuno i symud a chyd-symud. Hyn oll yn gyfarwydd iawn i ni pan ddown ynghyd i bwyllgor, cyngor neu gynhadledd. Er mor allweddol yr ymdrech i fagu a chynnal momentwm o waith a gwasanaeth, fe gododd y Parchg Susan Durber, (bu Susan gyda ni yn ein Cyfarfodydd Blynyddol yn 2024 yn ein hannerch am 'Faith, unity and mission in Wales 2025: encouragement from Nicaea 325') ambell sylw llawn mor bwysig. Soniodd am y ffaith – diymwad – fod nifer fawr o eglwysi'n lleol yn fregus a bod angen, nid dim ond anogaeth i weithio a chyd-weithio; nid dim ond strategaethau ac *up-skilling* ond gwrandawiad; sylweddoliad gan bencadlys o'r sefyllfa go iawn, lle mae pobl am y gorau yn gwneud eu gorau o dan amgylchiadau heriol.

Mae'r tensiwn hwn yn un real iawn gydag Annibynia hefyd, ond fe all – gyda gofal – fod yn densiwn creadigol ac iachusol. Gellid parchu a dathlu gweinidogaeth draddodiadol yr un pryd â chreu gofod i weinidogaeth amgen. Gellid annog eglwysi i glosio at ei gilydd, gyda'i gilydd i sylweddoli potensial amlwg cyd-weithio'n lleol, yr un pryd â chefnogi eglwysi sydd yn defnyddio – yn gorfod defnyddio – pob iot o egni i ddal pwysau sefyllfa a gofynion anodd iawn.

**Owain Llŷr**

## Dydd Gweddi'r Byd 2026 yng Ngheredigion



### Capel y Wig, Llangrannog

Cynhaliwyd 'Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2026' yng Nghapel y Wig gyda chynrychiolaeth o gapel Pisgah, Talgarreg a chapel Pantycrugiau, Plwmp yn ymuno dan lywyddiaeth ein gweinidog y Parchg Carys Ann. Cymerwyd rhan gan gynrychiolaeth o'r tair eglwys sef, Elin Owens a Bill Moss, capel Pantycrugiau; Ann Jones, Nia a Lettie Williams, Llinos Whitfield, Arwel a Mary Davies, Ronnie a Gwyneth Davies, capel Pisgah. Hefin a Linda Harries, Mair ac Orwig Davies, Sheila James, Buddug Davies, Jon M. O. Jones a Gareth Wyn, Mair Jones, Heledd Clayton, Capel y Wig.



### Capel Glynarthen

Cynhaliwyd 'Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd' Mawrth 2026 yng nghapel Glynarthen dan ofal a llywyddiaeth ein gweinidog y Parchg Carys Ann.

Cymerwyd rhan a chafwyd cefnogaeth gan Bethan Evans, Siân Davies, Rhian Evans, Dewi a Bernice Jones, Angharad Jones, Annwen Davies, Catrin Jones, Mair Griffiths capel Glynarthen; Elsie Evans, Glenys Williams, Llinos James capel Bryngwenith; Mair Griffiths, Ann Rees a Gaynor Jones Hawen, Rhydlewis.

Barn Annibynnol

# Cadw gŵyl

Sut Basg gawsoch chi? Oes ’na wyau Pasg dal acw yn eich temtio? Yda chi dal yn estyn am y creme egg yna wrth dalu am eich petrol? Fel efo tymhorau’r flwyddyn, mae agweddau gwahanol yn gallu codi yn ein taith ffydd drwy’r flwyddyn wrth i ni nodi’r gwyliau Cristnogol. Mae cyffro’r Adfent a gŵyl y Geni yn denu ein sylw ar ddiwedd y flwyddyn ac yna’r Grawys a’r Pasg yn canolbwyntio’r meddwl ac yn ein harwain i fyfyrio ar aberth y groes a llawenydd a gorfoledd y bedd gwag. Ymhen ychydig wythnosau, cawn gyfle i ganolbwyntio ar ŵyl y Pentecost; gŵyl sydd yr un mor bwysig â’r Nadolig a’r Pasg, ond gŵyl sydd ddim yn cael gymaint o sylw ag y dylai. Y Pentecost sy’n ein hatgoffa fod Duw bob amser yn ein cynnal a’n harwain ymlaen yn ein ffydd drwy bresenoldeb ei Ysbryd Glân. Dyma’r ŵyl sydd i fod i’n llenwi â hyder ac egni newydd a chyfeiriad i fynd ymlaen â’n gwaith fel rhan o eglwys Iesu Grist heddiw. Dylsem fod yn dathlu llawer mwy ar y Pentecost nag ydym ni. Eleni ar 24 Mai byddwn yn dathlu gyda llaw – rhowch o yn eich dyddiadur rŵan!

### Wedi’r Pasg

Ond dewch i ni fynd nôl at y Pasg am ychydig. Er tydy ‘mynd yn ôl’ ddim yn ymadrodd addas wrth i ni sôn am y Pasg nagydy? Ein symud ymlaen mae’r Pasg i fod i wneud. Ond mae’r Suliau ar ôl Sul y Pasg yn gallu teimlo ychydig yn ‘fflat’ ar ôl gweithgareddau’r Grawys a phrysurdeb penwythnos y Pasg. Ac mi allwn ni ddeall hynny ar un ystyr. Ond ar lefel ddyfnach, dylsem weld y Pasg fel rhyw fath o ‘spring board’ i’n llenwi ag egni a gorfoledd newydd. Yn hytrach na gweld y Suliau wedi’r Pasg fel Suliau sydd braidd yn ‘fflat’, dylsem fwrw iddi go iawn i barhau i ddathlu a myfyrio ar lawenydd a gorfoledd y Pasg.

### Sul y Suliau

Mi allem ddweud fod pob Sul yn Sul y Pasg i ni mewn gwirionedd; dyna pam mai dydd Sul ydy ein ‘diwrnod sanctaidd’ ni. Y diwrnod pan fydd Cristnogion yn dod at ei gilydd i gyd-addoli. Fe wyddom y peryg o gyfyngu ein ffydd i un diwrnod o’r wythnos yn unig; mae byw ein ffydd yn rhywbeth ar gyfer pob diwrnod. Ond mae arwyddocâd arbennig y Sul yn deillio o Sul y Pasg ac atgyfodiad Iesu. Sul sy’n ein hatgoffa fod Duw yn Iesu yn gryfach na marwolaeth a thywyllwch a’i fod, drwy ei atgyfodiad yn llenwi ein calonnau â gobaith a gorfoledd. Gobaith a gorfoledd ar gyfer pob dydd. Mae’n wir na fyddwn yn teimlo’n obeithiol a gorfoleddus bob diwrnod. Ar adegau gall profiadau taith bywyd ein taro yn galed a’n bwrw yn aml i anobaith. A dyna pam mae canolbwyntio ar neges y Pasg drwy’r flwyddyn mor bwysig; i’n cynnal drwy’r cyfnodau heriol hynny ac i’n harwain unwaith eto i fan golau yng nghwmni Iesu.

Yn y lluniau mae pobl ifanc Salem a wnaeth arwain myfyrdod nos Wener y Groglith a llun o’r rhai wnaeth gymryd rhan fore Sul y Pasg, yn blant, pobol ifanc ac oedolion. Hoffwn ddiolch yn fawr iddynt am eu help i mi fel gweinidog ac am fod yn rhan mor bwysig o deulu’r eglwys yn Salem.

**Mererid Mair**

(Nid yw’r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)







*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.


# Cyngerdd dathlu 300 mlwyddiant capel Heol Awst, Caerfyrddin

Daeth cynulleidfa niferus iawn ynghyd i gapel Heol Awst nos Sul 22 Mawrth i'r gyngerdd dathlu. Bu disgwyl mawr am y noson a pharatoadau gofalus yn eu lle, diolch i Olga WIlliams a'i thîm. Ni chawsom ein siomi a chafwyd dathliadau gwirioneddol yng nghwmni yn agos at 100 o blant a phobl ifanc a oedd yn cynnwys corau Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnon- ddrain. Bu eu cyfraniadau i'r gyngerdd yn werthfawr tu hwnt a phob eitem yn raenus. Yr arweinyddion oedd Berian Lewis a Nia Evans gyda Nia Clwyd yn cyfeilio i'r parti cerdd dant. Fe'n hanrhydeddwyd hefyd gan gwmni a chyfraniadau'r soprano Fflur Wyn a ddaeth atom yn unswydd o Lundain. Roedd ei llais peraidd yn llenwi'r adeilad i gyfeiliant medrus Sioned Beynon. Felly hefyd Gruffydd Wyn, seren Cân i Gymru a Britains Got Talent a ganodd yn fendigedig.





Cadeirydd y noson oedd Ifan Charles, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Yn un o blant Heol Awst, pleser oedd ei glywed yn rhannu atgofion am ei blentyndod yno a dylanwad yr achos ar ei fywyd ym more oes. Meirion Wynne Jones oedd wrth yr organ gan godi'r canu cynulleidfaol i'r uchelfannau. Bu Sioned Beynon yn cyfeilio i bawb drwy'r noson, a mawr yw ein diolch iddi hithau a Meirion, dau o gymwynaswyr talentog yr ardal, am eu gwaith. Llywyddwyd y noson gan weinidog eglwys Heol Awst, y Parchg Beti Wyn James.



Rhannwyd elw sylweddol y noson rhwng corau Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnon-ddrain i'w helpu ar eu siwrne i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fôn.

Do, bu'n noson a fydd yn aros yn y cof – yn ddathliad o'r hyn a fu, ac yn ysbrydoliaeth wrth i ni edrych i'r dyfodol. Priodol oedd diweddu'r noson wrth i'r gynulleidfa gydganu geiriau'r Parchg Peter Thomas:

Cerddwn ymlaen i'r yfory,
chwifiwn faner yn y gwynt,
seiniwn glod am a gafwyd,
am fendithion dyddiau gynt;
am y rhai fu yma'n sefyll
ac yn brwydro dros y gwir
seiniwn glod a cherddwn ymlaen.







*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*